**Rhif: WG46978**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

# Ardrethi Annomestig

Diwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru – Crynodeb o'r ymatebion

9 Chwefror 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-445-1

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Ddiwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGFR.Ymgyngoriadau@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori:

https://www.llyw.cymru/diwygio-ardrethi-annomestig-yng-nghymru

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 4
Cynigion ........ 4
Ymgysylltu ........ 5
Crynodeb o’r ymatebion ........ 5
Sylwadau eraill ........ 16
Y camau nesaf ........ 16
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr ........ 18

## Cyflwyniad

1. Codir ardrethi annomestig, a elwir weithiau'n ardrethi busnes, ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig. Cyfrifir atebolrwydd drwy luosi'r gwerth ardrethol, a bennir yn annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), yn ôl y lluosydd, a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl rhyddhadau, mae ardrethi yn codi dros £1.1bn bob blwyddyn yng Nghymru. Defnyddir yr holl refeniw hwn i ariannu gwasanaethau cyhoeddus lleol y mae pobl a chymunedau'n dibynnu arnynt.

2. Ar 29 Mawrth 2022, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio ardrethi annomestig yn ystod tymor y Senedd bresennol. Roedd hwn yn datblygu ar yr adroddiad Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau a gyhoeddwyd ar ddiwedd tymor y Senedd flaenorol.

3. Mae angen cymysgedd o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ar gyfer y cynlluniau diwygio hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ystod tymor y Senedd hon drwy Fil Cyllid Llywodraeth Leol arfaethedig.

4. Roedd yr ymgynghoriad *Diwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru* yn ceisio sylwadau ar gynigion ar gyfer diwygio'r system ardrethi annomestig. Gofynnwyd i amrywiaeth eang o randdeiliaid gymryd rhan, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff sy'n cynrychioli sectorau o'r sylfaen drethu, cynrychiolwyr proffesiynol ym maes ardrethu neu drethu, a thalwyr ardrethi unigol.

5. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru'n unig.

## Cynigion

6. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar amrywiaeth o gynigion gyda'r nod o wneud newidiadau hanfodol a chadarnhaol i ardrethi annomestig yng Nghymru. Mae'r cynigion yn cynnwys y canlynol.

   - **Cylchoedd ailbrisio mwy rheolaidd,** sef newid y mae llawer o randdeiliaid wedi bod yn galw amdano, er mwyn sicrhau bod prisiadau ardrethi yn cynnig adlewyrchiad mwy cywir o amodau cyfredol y farchnad, ynghyd â'r mesurau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi hyn.

   - **Gwella'r llif gwybodaeth** rhwng y llywodraeth a thalwyr ardrethi, gan fanteisio ar wasanaethau digidol modern.

   - Rhoi **deddfwriaeth fwy hyblyg** i Lywodraeth Cymru i ddiwygio rhyddhadau ac esemptiadau yn y dyfodol.

   - Cynnal **adolygiad o ryddhadau ac esemptiadau** er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn gydnaws â'n Rhaglen Lywodraethu ac y caiff y cymorth sydd ar gael ei dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- Rhoi mwy o gyfleoedd i **amrywio'r lluosydd** er mwyn helpu i sicrhau bod codiadau blynyddol yn gydnaws â'n blaenoriaethau datblygu economaidd.

- Gwella'r broses o **weinyddu swyddogaethau prisio a rhestrau ardrethu** er mwyn symleiddio prosesau a lleihau'r baich ar y llywodraeth a thalwyr ardrethi; a

- Mesurau pellach i sicrhau y gallwn barhau i fynd i'r afael ag achosion o **osgoi** talu ardrethi.

- Ystyried dull amgen, fel **treth gwerth tir leol**, mewn perthynas â chodi trethi lleol yn y tymor hwy.

## Ymgysylltu

7. Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos a gynhaliwyd o 21 Medi 2022 i 14 Rhagfyr 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Crynodeb o’r ymatebion

8. Cafwyd cyfanswm o 73 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd ymatebion o amrywiaeth eang o randdeiliaid. Roedd 23 o’r ymatebion wedi’u cyflwyno gan gyrff sy'n cynrychioli sectorau o'r sylfaen drethu, 19 o ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd a all fod yn dalwyr ardrethi hefyd, 14 o ymatebion gan fusnesau unigol, naw ymateb gan lywodraeth leol ac wyth ymateb gan gynrychiolwyr proffesiynol ym maes ardrethu neu drethu.

9. Mae'r crynodeb canlynol yn canolbwyntio ar y cwestiynau a ofynnwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd y sylwadau yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn y rhan fwyaf o achosion, gyda rhai eithriadau. Ymhlith y themâu cyson roedd cydnabyddiaeth bod cyfle i wella'r system ardrethi annomestig, a sylwadau am faich cyffredinol y dreth ymhlith y rheini a fydd yn atebol i’w thalu.

10. Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Ei nod yw ceisio tynnu sylw at y themâu allweddol, yn hytrach na chofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr.

11. Nid oedd rhai o’r ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn. Mae'r holl ganrannau'n seiliedig ar y sylwadau a roddwyd mewn cysylltiad â'r cwestiwn perthnasol, yn hytrach na chyfanswm yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyfan.

12. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn **Atodiad A.**

**C1. A ydych yn cytuno y dylid cynnal ailbrisiadau o leiaf unwaith bob tair blynedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau tegwch yn y system drwy wneud yn siŵr y caiff prisiadau eu diweddaru'n amlach i adlewyrchu amodau economaidd newidiol? Beth yw eich rhesymau dros eich ateb?**

13. O'r 68 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 75% o blaid y cynnig i gynnal ailbrisiadau bob tair blynedd, roedd 21% yn erbyn y cynnig ac roedd 4% yn ansicr. Rhoddodd 58 o'r ymatebion sylwadau penodol mewn ymateb i'r cwestiwn.

14. Ymhlith yr ymatebion a oedd o blaid cynnal ailbrisiadau bob tair blynedd, y farn gyffredinol oedd y byddai'r newid yn sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn ymateb yn well i newidiadau economaidd, wrth hefyd gadw rhywfaint o sicrwydd gan na fyddai atebolrwydd yn newid yn rhy aml. Tynnwyd sylw hefyd at y sicrwydd a fyddai'n dod drwy weithredu yn unol â'r un amserlen arfaethedig yng Nghymru a Lloegr. Roedd y safbwynt hwn yn gyffredin ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid o wahanol grwpiau, ac yn cael ei chefnogi'n gyffredinol gan ymatebwyr o lywodraeth leol.

15. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid cynnal ailbrisiadau yn amlach na phob tair blynedd. Roedd yr ymatebion hyn yn nodi'n gyffredinol fod angen cynnal ailbrisiadau'n amlach oherwydd amrywiadau yn y farchnad ac, er y byddai'n ddymunol cael ailbrisiadau bob tair blynedd, dylid ystyried hyn yn gam interim tuag at gynnal ailbrisiadau'n amlach pan fydd y dechnoleg a ddefnyddir yn y system yn caniatáu hynny. Roedd sylwadau a oedd yn cefnogi cynnal ailbrisiadau'n amlach yn gyffredin ymhlith nifer o'r grwpiau o ymatebwyr, gan gynnwys rhai grwpiau sy'n cynrychioli sectorau mawr o'r sylfaen drethu.

16. Roedd sylwadau a oedd yn erbyn cynnal ailbrisiadau'n amlach yn tueddu i gefnogi'r system bresennol o gynnal ailbrisiadau bob pum mlynedd, gan gyfeirio at y cynnydd posibl yn y baich gweinyddol ar dalwyr ardrethi. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith aelodau o'r cyhoedd yn bennaf.

17. Roedd sylwadau ehangach yn canolbwyntio ar sut yr oedd newidiadau i atebolrwydd yn digwydd, newid sail yr atebolrwydd, a rhoi system drethi arall ar waith yn lle ardrethi annomestig. Cafodd sylwadau o'r fath eu cyflwyno gan amrywiaeth o ymatebwyr.

**C2. A ydych o'r farn y dylid cynnal ailbrisiadau yn amlach na bob tair blynedd? Os felly, pa mor aml fyddech chi'n ei awgrymu?**

18. O'r 65 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 60% yn erbyn cynnal ailbrisiadau'n amlach na phob tair blynedd, roedd 35% o blaid ac roedd 5% yn ansicr. Rhoddodd 53 o'r ymatebion sylwadau penodol mewn ymateb i'r cwestiwn.

19. Tynnodd sylwadau a oedd yn erbyn cynnal ailbrisiadau'n amlach na phob tair blynedd sylw at y costau uwch o gynnal ailbrisiad, y risg o greu ansicrwydd drwy ailbrisio eiddo'n rhy aml, ac amheuon ynghylch gallu presennol Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gynnal ailbrisiadau'n amlach. Roedd ymatebwyr o wahanol grwpiau’n rhannu’r farn hon, a oedd hefyd yn gyffredin ymhlith ymatebion llywodraeth leol.

20. Ymhlith yr ymatebion a oedd yn cefnogi cynnal ailbrisiadau'n amlach na phob tair blynedd, roedd sylwadau'n canolbwyntio ar sicrhau bod gwerthoedd ardrethol yn adlewyrchu amodau'r farchnad yn well. Er bod sylwadau yn cefnogi cynnal ailbrisiadau'n amlach, un o'r amodau a gododd yn gyffredinol oedd yr angen i sicrhau bod y gallu angenrheidiol ar gael yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyflawni hynny. Roedd nifer o wahanol grwpiau yn cefnogi cynnal ailbrisiadau'n amlach, gan gynnwys cynrychiolwyr y sectorau mawr, ond nid oedd llywodraeth leol yn cefnogi'r safbwynt hwn.

**C3. A ydych o'r farn y dylai'r bwlch rhwng y dyddiad prisio rhagflaenol a dyddiad cynnal yr ailbrisiad fod yn llai na dwy flynedd, os yn bosibl, yn y dyfodol?**

21. O'r 66 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 65% o blaid cael bwlch llai na dwy flynedd rhwng y dyddiad prisio rhagflaenol a dyddiad cynnal yr ailbrisiad, roedd 26% yn erbyn y syniad ac roedd 9% yn ansicr. Rhoddodd 43 o'r ymatebion sylwadau penodol mewn ymateb i'r cwestiwn.

22. Pan gafwyd awgrymiadau penodol gan yr ymatebwyr hynny a oedd o blaid cael bwlch llai, 12 mis oedd hyd y bwlch a gynigiwyd gan amlaf, gyda nifer bach o ymatebwyr yn cynnig bwlch o 18 mis. Cododd sylwadau bryder bod y bwlch presennol yn arwain at werthoedd ardrethol nad ydynt yn cynrychioli amodau'r farchnad ar ddyddiad yr ailbrisiad. Tynnodd nifer o'r ymatebion sylw at y ffaith bod bwlch llai wedi cael ei gyflwyno mewn gwledydd eraill, gan gynnwys bwlch o 12 mis yn yr Alban. Awgrymwyd hefyd y gallai bwlch llai leihau'r tebygolrwydd o apeliadau. Roedd amrywiaeth eang o ymatebwyr yn cefnogi'r safbwynt hwn, a oedd hefyd yn gyffredin ymhlith cyrff proffesiynol ym maes trethu ac ardrethu ac ymatebion llywodraeth leol.

23. Cyfeiriodd yr ymatebwyr a oedd o blaid cadw'r bwlch presennol at y gofynion gwybodaeth er mwyn cyflawni ailbrisiadau. Tynnodd un busnes mawr sylw at y gwaith ymgysylltu helaeth sy'n ofynnol ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio cyn cynnal ailbrisiad. Er na chafwyd llawer o sylwadau o'r fath, daethant o nifer o wahanol grwpiau o ymatebwyr.

**C4. A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion i greu dyletswydd ar dalwyr ardrethi i roi gwybod i Asiantaeth y Swyddfa Brisio os bydd gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r hereditament yn newid, a'r ddyletswydd newydd i roi cadarnhad blynyddol, er mwyn cefnogi ailbrisiadau mwy rheolaidd a helpu i gadw rhestrau ardrethu cywir?**

24. O'r 53 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 66% o blaid y ddyletswydd arfaethedig, ac roedd 34% yn ei herbyn.

25. Roedd cefnogaeth rhai o'r ymatebwyr yn amodol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod talwyr ardrethi yn cael canllawiau clir sy'n amlinellu pa wybodaeth sy'n ofynnol. Cafodd y safbwynt hwn ei gyflwyno'n gyffredinol mewn ymatebion gan lywodraeth leol.

26. Roedd sylwadau eraill a oedd o blaid y ddyletswydd arfaethedig yn cytuno y byddai'n gwneud y rhestr yn fwy cywir, yn sicrhau bod modd gwneud newidiadau'n amserol ac yn lleihau'r angen am newidiadau ôl-weithredol i flynyddoedd blaenorol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y byddai'r newidiadau'n cefnogi'r gwaith o gynnal ailbrisiadau'n amlach ac yn helpu i leihau'r bwlch rhwng y dyddiad prisio rhagflaenol a dyddiad unrhyw ailbrisiad yn y dyfodol. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth o grwpiau i’r perwyl hwn, gan gynrychioli buddiannau gwahanol.

27. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn gyffredinol yn anghytuno o ran pa mor aml y dylid gofyn am gadarnhad blynyddol. Cafodd y safbwynt hwn ei gyflwyno gan rai unigolion a chynrychiolwyr.

28. Cododd yr ymatebion a oedd yn erbyn y cynigion bryderon yn gyffredinol ynghylch y baich ychwanegol y byddai'r ddyletswydd yn ei osod ar dalwyr ardrethi. Nodwyd pryderon gan amrywiaeth o ymatebwyr, gan ystyried y byddai'r effeithiau'n wahanol i fusnesau bach a busnesau mwy. Tynnwyd sylw at y ffaith efallai na fyddai busnesau bach yn ymwybodol o newidiadau sy'n ysgogi’r ddyletswydd, a'r ffaith y gall fod portffolios eiddo helaeth gan fusnesau mwy, sy'n gofyn am waith mawr i gasglu'r wybodaeth berthnasol. Awgrymwyd hefyd fod modd rhannu'r wybodaeth sy'n cael ei chadw eisoes gan gyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol.

**C5. A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion ar gyfer cyfundrefn gydymffurfio gymesur i gefnogi'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth? Yn arbennig, a ydych o'r farn bod y cosbau arfaethedig yn deg ac yn gymesur?**

29. O'r 56 o ymatebion a ddaeth i law, roedd nifer cyfartal yn cefnogi tri safbwynt gwahanol: rhai yn cefnogi'r cosbau; rhai yn cydnabod bod angen system gosbau ar yr amod y ceir rhagor o fanylion; a rhai yn ystyried bod y cosbau arfaethedig yn rhy uchel (27% o'r ymatebion ym mhob achos). Gwnaed sylwadau hefyd am yr effeithiau ar naill ai talwyr ardrethi neu gyrff sy'n gweinyddu’r cosbau.

30. Tynnodd ymatebion a oedd yn cefnogi cosbau uwch sylw at y ffaith bod angen cael cyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig er mwyn sicrhau bod unrhyw ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth yn effeithiol, a bod angen i'r cosbau arfaethedig gael eu hystyried yn rhai teg a chymesur. Roedd y safbwynt hwn yn gyffredin ymhlith ymatebion llywodraeth leol yn bennaf, gyda nifer bach o gynrychiolwyr sector a busnesau yn cytuno.

31. Ymhlith yr ymatebion a oedd yn dweud bod angen rhagor o fanylion, nodwyd y byddai angen canllawiau clir er mwyn egluro i'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth, pa wybodaeth y byddai angen ei darparu. Roedd sylwadau hefyd yn cefnogi cynlluniau i sicrhau bod y ddyletswydd ar waith ac yn cael cyfle i ymwreiddio, cyn i unrhyw system gosbau gael ei chyflwyno. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith amrywiaeth o’r ymatebwyr.

32. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn ystyried bod y cosbau arfaethedig yn rhy uchel yn poeni efallai y byddent yn cael eu defnyddio'n rhy aml, gan nodi y dylid eu trin fel opsiwn pan fetho popeth arall. Nodwyd yn gyffredinol y dylid bod yn drugarog,

a gwneud pob ymdrech i gael gwybodaeth cyn troi at ddefnyddio cosbau. Codwyd pryder hefyd fod cosbau troseddol yn rhy lym. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith amrywiaeth o ymatebwyr, ac eithrio llywodraeth leol.

**C6. A yw'r amserlenni arfaethedig yn rhoi digon o amser i dalwyr ardrethi gyflawni eu rhwymedigaethau? Os nad ydynt, o dan ba amgylchiadau na fyddai hyn yn bosibl?**

33. O'r 62 o ymatebion a ddaeth i law, roed 54% yn cefnogi'r amserlenni arfaethedig, roedd 26% yn ei herbyn ac roedd 20% yn ansicr. Rhoddwyd sylwadau penodol mewn 39 o'r ymatebion.

34. Roedd ymatebion a oedd o blaid yr amserlenni yn ystyried eu bod yn deg, yn unol â chyfrifoldebau eraill a roddir ar fusnesau. Rhoddwyd y farn hon gan amrywiaeth o ymatebwyr, ac roedd hefyd yn gyffredin ymhlith ymatebwyr o lywodraeth leol.

35. Roedd rhai ymatebion o blaid yr amserlenni'n gyffredinol, ond roedd pryderon ganddynt ynghylch pa mor gymhleth fyddai'r wybodaeth y gall fod angen ei darparu o fewn yr amserlenni hynny. Awgrymwyd yn gyffredinol y dylid fod yn hyblyg pan oedd bwriad i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau, heb allu gwireddu'r bwriad hwnnw am wahanol resymau. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith amrywiaeth o ymatebwyr.

36. Busnesau oedd yn erbyn yr amserlenni yn bennaf. Cododd tri busnes mawr â phortffolios eiddo helaeth bryderon ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r amserlenni arfaethedig.

**C7. A oes gennych unrhyw farn ar y cynnig i gynnal adolygiad o gynlluniau rhyddhad ac unrhyw farn o ran sut y dylid ystyried eu heffeithiolrwydd? Pa ffactorau y dylai adolygiad eu hystyried?**

37. O'r 52 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 46% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i gynnal adolygiad o gynlluniau rhyddhad. Roedd sylwadau eraill o blaid sicrhau bod y system bresennol yn rhoi rhagor o ryddhad (17%), cadw'r pecyn o ryddhadau fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd (17%), a symleiddio'r system bresennol i'w gwneud yn llai cymhleth (15%). Cododd sylwadau ehangach bryder ynghylch pwysau yn sgil costau presennol, gan wneud galwadau i sicrhau bod hyn yn ystyriaeth ganolog i unrhyw adolygiad.

38. Tynnodd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi cynnal adolygiad sylw at wahanol agweddau ar y cynlluniau rhyddhad presennol y dylid eu hailystyried, gan gyfeirio'n gyffredinol at y ffordd roedd y Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a'r Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn gweithio. Un o'r themâu cyffredin oedd y dylid sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y system yn cael eu gwneud gyda'r nod o wneud y system yn decach. Roedd nifer o wahanol fathau o ymatebwyr yn cefnogi cynnal adolygiad, ac roedd ymatebion llywodraeth leol yn gyffredinol yn cefnogi hyn.

39. Busnesau sy’n galw am ostyngiad mewn atebolrwydd unigol oedd yn cefnogi rhoi rhagor o ryddhad yn bennaf. Cafwyd galwadau tebyg gan nifer bach o grwpiau sy'n cynrychioli sector.

40. Roedd cymysgedd o fusnesau unigol a grwpiau sy'n cynrychioli sector yn ystyried bod y pecyn presennol o ryddhadau yn addas i'r diben, a chafwyd sylwadau'n tynnu sylw at ba mor bwysig yw’r cynlluniau rhyddhad presennol.

41. Nodwyd pryder ynghylch cymhlethdod y system bresennol, gan gyfeirio at yr amrywiaeth eang iawn o gynlluniau rhyddhad ac ansicrwydd ymhlith talwyr ardrethi ynghylch yr hyn y gall fod ganddynt hawl iddo. Cyflwynwyd y sylwadau hyn gan gyrff sy'n cynrychioli'r sectorau mawr. Cododd rhai o ymatebion llywodraeth leol y mater o gymhlethdod gweinyddu gwahanol ryddhadau hefyd.

**C8. A oes gennych unrhyw farn ar ein cynigion i alluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio, dileu a chreu rhyddhadau statudol newydd drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?**

42. O'r 48 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 64% yn cefnogi rhagor o hyblygrwydd deddfwriaethol ynghylch rhyddhadau. Roedd 25% o'r ymatebion yn mynegi'r gwrthwyneb i hyn, gan ddadlau yn erbyn rhagor o hyblygrwydd yn y maes hwn, neu alw am gynlluniau rhyddhad sy'n hollol gyson â chynlluniau gwledydd eraill y DU. Cyflwynwyd sylwadau ehangach am gadw neu ehangu'r rhyddhadau sy'n bodoli eisoes hefyd.

43. O'r sylwadau a oedd o blaid hyblygrwydd, tynnwyd sylw at sut y byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fod yn fwy ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg yn ogystal â chysoni cymorth yn well ag amcanion polisi ehangach. Roedd cefnogaeth cyfran fach o'r ymatebwyr yn amodol ar yr angen i ymgynghori'n briodol cyn gwneud newidiadau. Cyflwynwyd sylwadau'n cefnogi hyblygrwydd gan amrywiaeth eang o ymatebwyr, gan gynnwys ymatebion cyrff sy'n cynrychioli'r sectorau mawr ac mewn ymatebion llywodraeth leol.

44. Cododd ymatebwyr a oedd yn mynegi barn yn erbyn rhagor o hyblygrwydd bryderon ynghylch rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru i newid y system ardrethi annomestig yn haws, gan hefyd dynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â chael polisi sy'n gwyro oddi wrth yr hyn sydd ar waith yn Lloegr. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith busnesau bach, aelodau o'r cyhoedd ac un neu ddau o gynrychiolwyr proffesiynol ym maes trethu ac ardrethu yn bennaf.

**C9. A oes gennych unrhyw farn ar y cynnig i Lywodraeth Cymru gael mwy o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer esemptiadau drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?**

45. O'r 37 o ymatebion a ddaeth i law, roedd sylwadau'n debyg yn gyffredinol i'r sylwadau a gafwyd mewn cysylltiad â rhyddhadau, gyda 62% yn cefnogi rhagor o hyblygrwydd. Roedd y 38% sy'n weddill yn anghytuno â'r cynnig i gael rhagor o hyblygrwydd deddfwriaethol. Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar gysoni â Llywodraeth y DU a sicrhau bod lefel uwch o graffu yn cael ei harfer ar gyfer unrhyw newidiadau.

**C10. Beth yw eich barn ar y cynnig i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddyfarnu rhyddhad dewisol ôl-weithredol?**

46. O'r 48 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 71% o blaid ehangu pwerau awdurdodau lleol i ddyfarnu rhyddhad dewisol yn ôl-weithredol. Roedd y 29% sy'n weddill yn erbyn y cynnig.

47. Tynnodd y sylwadau a oedd yn cefnogi'r cynnig sylw at y ffaith bod y system bresennol yn gosod cyfyngiad annerbyniol sy'n effeithio ar awdurdodau lleol a thalwyr ardrethi. Ystyriwyd bod y cynigion yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i fynd i'r afael â materion sy’n benodol i ardal leol. Roedd amrywiaeth eang o ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion, a chafwyd cefnogaeth gyson gan lywodraeth leol.

48. Cododd yr ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynigion bryderon ynghylch penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ôl-weithredol ac ar lefel leol. Nododd rhai o'r ymatebion bryderon ynghylch anghysondebau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu o ran defnyddio eu disgresiwn. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith amrywiaeth o ymatebwyr, ond nid oedd yn amlwg ymhlith ymatebion llywodraeth leol.

**C11. Beth yw eich barn ar gynigion i roi'r gallu i Lywodraeth Cymru amrywio'r lluosydd ar gyfer eiddo a ddefnyddir at ddibenion gwahanol, eiddo â gwerth ardrethol gwahanol ac eiddo mewn lleoliadau daearyddol gwahanol, er mwyn bod yn gydnaws â blaenoriaethau polisi?**

49. O'r 57 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 51% yn cefnogi rhoi’r gallu i Lywodraeth Cymru amrywio'r lluosydd ar gyfer gwahanol rannau o'r sylfaen drethu. Roedd gweddill yr ymatebion yn erbyn rhagor o hyblygrwydd o ran y lluosydd yn gyffredinol, ac roedd 19% o'r ymatebion yn galw yn benodol am un lluosydd i aros ar waith ledled Cymru. Cododd ymatebion ehangach bryderon ynghylch y posibilrwydd o ragor o gymhlethdod a baich gweinyddol.

50. Prif sail y gefnogaeth ar gyfer rhagor o hyblygrwydd oedd y byddai'n sicrhau bod modd targedu'r lluosydd yn well wrth ei osod ar gyfer gwahanol rannau o'r sylfaen drethu. Awgrymwyd y gellid defnyddio hyn o dan nifer o wahanol amgylchiadau, er enghraifft er mwyn cefnogi busnesau llai neu i gyd-fynd ag ystyriaethau polisi ehangach. Tynnwyd sylw at y lluosydd hefyd fel ffordd arall bosibl o ddarparu cynllun rhyddhad er mwyn lleihau’r atebolrwydd ar gyfer rhan o'r sylfaen drethu. Cyflwynwyd sylwadau o blaid hyblygrwydd gan amrywiaeth eang o ymatebwyr, ac roedd cynrychiolwyr sector, cyrff proffesiynol ym maes trethu ac ardrethu, ac ymatebion llywodraeth leol o blaid y cynnig yn gyffredinol.

51. Tynnodd sylwadau a oedd yn erbyn rhagor o hyblygrwydd ac yn canolbwyntio ar gadw un lluosydd sylw at degwch y system bresennol a'r cymhlethdod ychwanegol a fyddai'n cael ei gyflwyno o gael mwy nag un lluosydd. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith grwpiau cynrychiadol a busnesau unigol.

52. Cododd yr ymatebion a oedd yn erbyn y cynigion bryder y byddai hyblygrwydd o safbwynt y lluosydd yn arwain at system lle y byddai gwahanol sectorau'n cael eu

trin yn anghyfartal, ac y byddai'r newidiadau'n arwain at ragor o ansicrwydd. Roedd y farn hon yn gyffredin yn bennaf ymhlith busnesau unigol ac aelodau o'r cyhoedd.

**C12. A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer paramedrau y gellid eu hystyried wrth amrywio'r lluosydd?**

53. O'r 26 o ymatebion a ddaeth i law, awgrymodd 38% y dylid defnyddio'r lluosydd i ostwng yr atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig, roedd 27% yn gweld y lluosydd fel adnodd ar gyfer mynd i'r afael â materion polisi ehangach, nododd 23% yn bendant na ddylid amrywio'r lluosydd, ac roedd 12% yn ei weld fel adnodd ar gyfer annog buddsoddiad.

54. Tynnodd sylwadau a oedd o blaid lleihau'r lluosydd sylw at fforddiadwyedd y dreth, gan ei chymharu â threthi y mae busnesau nad ydynt yn dibynnu ar ddefnyddio eiddo annomestig i'r un graddau yn eu talu. Codwyd pryderon hefyd ynghylch y dull diofyn o gynyddu refeniw ardrethi annomestig yn flynyddol yn unol â chwyddiant a'r ffaith bod ei bod yn ofynnol sicrhau bod ailbrisiadau'n niwtral o ran refeniw, hyd yn oed pan fydd gwerthoedd ardrethol wedi gostwng. Cyflwynwyd y sylwadau hyn gan grwpiau sy'n cynrychioli sectorau yn bennaf.

55. Awgrymwyd y gallai lluosydd is gyd-fynd â materion polisi ehangach gan gynnwys amddifadedd lleol, effeithlonrwydd ynni, mentrau cymdeithasol neu sicrhau bod cyrff yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, yn ogystal ag argyfyngau annisgwyl megis y pandemig. Daeth awgrymiadau o gyfuniad o gynrychiolwyr sector ac ymatebion llywodraeth leol.

56. Ailadroddwyd yn yr ymatebion a oedd yn erbyn amrywio'r lluosydd y sylwadau a roddwyd yn erbyn cynigion ar gyfer rhagor o hyblygrwydd deddfwriaethol.

**C13. A oes gennych unrhyw farn ar gynigion i sicrhau y caiff newidiadau mewn ffactorau economaidd, amodau'r farchnad neu newidiadau yn lefel gyffredinol rhenti eu hystyried drwy ailbrisiadau mwy rheolaidd, yn hytrach nag fel newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau rhwng ailbrisiadau?**

57. O'r 35 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 60% yn erbyn cynigion i egluro cwmpas arfaethedig apeliadau sy'n nodi newid perthnasol mewn amgylchiadau, ac roedd 40% yn cefnogi'r cynigion.

58. Roedd sylwadau yn erbyn y cynigion yn canolbwyntio ar bryderon na fyddai newidiadau sy'n digwydd rhwng ailbrisiadau yn cael eu cofnodi'n amserol, er prin oedd y cyfeiriadau at y manylion a'r rhesymeg dros edrych ar y mater yn y ffordd hon. Cododd rhai ymatebion bryderon am y dull o ymdrin ag apeliadau a gyflwynwyd mewn ymateb i gyfyngiadau COVID-19, gan nodi y dylid bod wedi caniatáu i'r rhain arwain at newidiadau yn y gwerthoedd ardrethol rhwng ailbrisiadau. Cyflwynwyd y sylwadau hyn gan nifer o wahanol grwpiau o ymatebwyr.

59. Nododd sylwadau a oedd o blaid y cynigion y byddai amrywiadau economaidd yn cael eu hadlewyrchu'n fwy cywir ac yn decach drwy gynnal ailbrisiadau bob tair

blynedd, fel y cynigwyd. Cydnabuwyd bod y cynigion yn bwriadu cadw'r hawl i gyflwyno apêl sy'n nodi newid perthnasol mewn amgylchiadau a achosir gan newidiadau lleol. Ymatebion llywodraeth leol yn bennaf oedd yn cefnogi'r safbwynt hwn, yn ogystal â nifer bach o ymatebion gan grwpiau eraill.

**C14. A ydych o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig i weithdrefnau hysbysiadau cwblhau yn helpu i sicrhau y caiff pob eiddo ei restru ar gyfer ardrethi annomestig mewn ffordd amserol?**

60. O'r 47 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 57% yn cefnogi'r cynnig, roedd 15% yn ei erbyn ac roedd 28% yn ansicr. Rhoddwyd sylwadau penodol mewn 22 o'r ymatebion.

61. Roedd yr ymatebion a oedd o blaid y newidiadau i'r hysbysiadau cwblhau o'r farn y bydd hyn yn sicrhau bod eiddo yn cael ei restru ar gyfer ardrethi annomestig yn fwy amserol a bod biliau'n fwy cywir. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith ymatebion llywodraeth leol yn bennaf.

62. Tynnodd rhai ymatebion sylw at yr angen i rannu gwybodaeth yn glir i sicrhau bod y cynnig yn gweithio'n effeithiol, gan roi cefnogaeth amodol i’r newidiadau arfaethedig. Cyflwynwyd y safbwynt hwn yn bennaf gan gyfuniad o gynrychiolwyr sector a chyrff proffesiynol ym maes trethu ac ardrethu.

63. Nododd sylwadau yn erbyn y cynnig fod y system bresennol yn gweithio a bod perygl y bydd unrhyw newidiadau iddi yn rhwystro datblygiadau.

**C15. A oes gennych unrhyw farn ar gynigion i wella'r broses o weinyddu'r rhestr ardrethu ganolog?**

64. O'r 23 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 87% yn gefnogol i ddileu'r angen i wneud rheoliadau er mwyn newid y rhestr ganolog, gyda'r 13% sy'n weddill yn cefnogi newidiadau yn amodol, a’r amod hwnnw oedd bod ymgyngoriadau’n cael eu cynnal pan fo'n briodol.

65. Roedd y gefnogaeth ar gyfer newidiadau yn nodi y byddai Llywodraeth Cymru a thalwyr ardrethi yn elwa ar y baich gweinyddol llai sy'n deillio o newid y rhestr ganolog, gan sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud yn fwy amserol. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

66. Busnesau â phortffolios eiddo mawr oedd yn codi pryderon ynghylch y ffordd y byddai newidiadau posibl yn effeithio arnynt fel talwyr ardrethi oedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn amodol yn bennaf.

**C16. A oes gennych unrhyw farn ar gynigion ar gyfer rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi ar gyfer ardrethi annomestig mewn egwyddor?**

67. O'r 29 o ymatebion a ddaeth i law, roedd y mwyafrif helaeth yn cefnogi cynigion i alluogi Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau yn erbyn osgoi trethi, neu roeddent yn eu cefnogi mewn egwyddor. Roedd gweddill yr ymatebion yn galw

am ymgyngoriadau pellach ar unrhyw gynigion, neu roeddent yn erbyn y cynigion.

68. Pwysleisiodd ymatebion a oedd o blaid y cynigion bwysigrwydd tegwch yn y system yn ogystal ag effaith achosion o golli refeniw sy'n deillio o osgoi trethi. Roedd y farn hon yn gyffredin ymhlith nifer o wahanol grwpiau cynrychiadol, ac roedd ymatebion llywodraeth leol yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol.

69. Cododd sylwadau a oedd o blaid y cynigion mewn egwyddor bryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai awdurdodau lleol fabwysiadu dulliau gwahanol, gan bwysleisio'r angen i sicrhau llwybr apelio. Tynnodd ymatebion eraill sylw at bwysigrwydd ymgynghori ar gynigion unigol.

**C17. A ydych o'r farn y dylai fod gan awdurdodau lleol fwy o bwerau i'w galluogi i drechu achosion o osgoi talu ardrethi annomnestig yn effeithiol?**

70. O'r 55 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 53% o blaid rhoi fwy o bwerau i awdurdodau lleol, roedd 34% yn erbyn y cynigion ac roedd 13% yn ansicr. Rhoddwyd sylwadau penodol mewn 36 o'r ymatebion.

71. Nododd yr ymatebion a oedd o blaid rhoi mwy o bwerau ar sail amodol yr angen am gysondeb ymhlith awdurdodau lleol. Roedd ymatebion llywodraeth leol yn tueddu i fod yn amodol hefyd, gan dynnu sylw mewn rhai achosion at yr angen am adnoddau er mwyn gallu defnyddio unrhyw bwerau.

72. Nododd sylwadau a oedd yn erbyn rhoi mwy o bwerau y risg o anghysondebau yn y ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn gweithredu, gan nodi y dylid mynd i'r afael â'r broblem o osgoi trethu yn ganolog.

**C18. Beth yw eich barn ar ddefnyddio dull amgen, fel treth gwerth tir leol, mewn perthynas â chodi trethi lleol, yn y tymor hwy?**

73. O'r 54 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 33% yn gwrthwynebu treth gwerth tir leol, nododd 24% awydd i gadw a gwella ardrethi annomestig, roedd 20% o blaid treth gwerth tir leol, cynigiodd 15% fath arall o dreth, ac roedd 8% yn ansicr.

74. Yn y sylwadau yn erbyn treth gwerth tir leol, ystyriwyd ei bod yn ddewis amgen cymhleth a fyddai'n gostus ac yn anodd ei weithredu. Nodwyd bod ymchwil a gynhaliwyd eisoes wedi amlygu'r wybodaeth y byddai ei hangen cyn y gellid ystyried bod treth gwerth tir leol yn ddewis dichonadwy. Codwyd pryderon hefyd am yr effaith ar sectorau â defnydd mawr o dir. Cafodd safbwyntiau o'r fath eu cyflwyno gan wahanol grwpiau, gan gynnwys ymhlith cyfran uchel o'r ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth aelodau o'r cyhoedd.

75. Yn gyffredinol, mynegwyd cefnogaeth ar gyfer y system bresennol ar yr amod y gellid diwygio er mwyn gwella'r system honno. Cydnabuwyd bod trefniadau'r system ardrethi annomestig yn hirsefydlog bellach a bod dealltwriaeth gyffredinol ohoni. Gyda system newydd, ar y llaw arall, mae perygl o gyflwyno rhagor o gymhlethdod. Cafodd sylwadau o'r fath eu cyflwyno gan amrywiaeth o ymatebwyr.

76. Tynnodd y rheini sydd o blaid treth gwerth tir leol sylw at y ffaith bod treth debyg i’w chael mewn gwledydd eraill a chanolbwyntiwyd ar y posibilrwydd y gallai treth gwerth tir leol leihau'r atebolrwydd sy'n ddyledus o dan y system ardrethi annomestig. Pwysleisiwyd hefyd yn yr ymatebion y byddai risgiau yn gysylltiedig â system newydd ac y byddai angen gwneud gwaith helaeth. Cafodd sylwadau o'r fath eu cyflwyno gan amrywiaeth o ymatebwyr.

77. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer mathau eraill o drethi, gan gynnwys treth ar sail refeniw, a fyddai’n debycach i dreth gorfforaeth neu TAW, a threth gwerthiannau ar-lein. Fel thema gyffredinol, ystyrir bod ardrethi annomestig yn afresymol o feichus ar rai sectorau dros eraill ac efallai y byddai trethi gwahanol yn mynd i'r afael â hyn yn fwy effeithiol. Cafodd sylwadau o'r fath eu cyflwyno'n bennaf gan gyrff cynrychioliadol penodol i sector.

**C19. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am ddiwygio ardrethi annomestig. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol neu os hoffech gyflwyno sylwadau ar agweddau eraill ar ddiwygio ardrethi annomestig, defnyddiwch y lle hwn i nodi eich sylwadau.**

78. O'r 25 o ymatebion a ddaeth i law, ailadroddwyd safbwyntiau o blaid diwygio'r system bresennol, gan nodi pryderon ynglŷn â sut y byddai’r system yn gweithredu a galw am ostwng effaith ardrethi annomestig. Roedd ymatebion eraill yn cyflwyno amrywiol safbwyntiau ehangach, gan gynnwys yr angen i ymgynghori ar newidiadau ac effeithiau ar sectorau penodol.

79. Ymhlith y rheini oedd o blaid diwygio'r system bresennol, cafwyd cymysgedd o gefnogaeth ar gyfer y cynigion a galwadau am ddiwygio mwy eang. Yn gyffredinol, roedd y cynnig i gynnal ailbrisiadau’n fwy rheolaidd yn cael ei groesawu.

80. Codwyd pryderon am sut y byddai’r system apelio yn gweithredu a pha mor alluog yw’r system i ymdrin ag apeliadau mewn modd amserol. Roedd pryderon hefyd a oes gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio adnoddau digonol i alluogi'r cynigion.

81. Tynnodd rhai o'r rheini a oedd yn galw am ostwng effaith ariannol ardrethi annomestig sylw at y posibilrwydd o gymell busnesau newydd drwy gymorth, tra bo eraill wedi tynnu sylw at yr atebolrwydd treth cyffredinol.

**C20. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**

1. **ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac**
2. **ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

82. O'r 27 o ymatebion a ddaeth i law, nododd y mwyafrif na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, a dywedodd nifer bach y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol. Roedd safbwyntiau ehangach yn pwysleisio pwysigrwydd trin

y ddwy iaith yn gyfartal, gyda nifer bach o ymatebion yn mynegi pryderon ynghylch costau gweithredu'n ddwyieithog.

**C21. Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y cynigion, yn eich barn chi:**

1. **cael effaith gadarnhaol neu gynyddu'r effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a**
2. **osgoi unrhyw effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

83. O'r 13 o ymatebion a ddaeth i law, awgrymodd sawl un y gallai lleihad o ran atebolrwydd treth gymell pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, gwnaeth rhai sylwadau o blaid dwyieithrwydd, a chododd nifer bach bryderon ynghylch costau gweithredu'n ddwyieithog.

84. Roedd awgrymiadau yn cynnwys lleihau atebolrwydd busnesau sy'n darparu hyfforddiant yn y Gymraeg, gosod lluosydd is ar gyfer sectorau sy'n cefnogi'r Gymraeg, a rhoi cymorth wedi'i dargedu i ardaloedd gwledig lle mae gogwydd mawr tuag at siaradwyr Cymraeg.

## Sylwadau eraill

85. Derbyniwyd tri ymateb i'r ymgynghoriad nad oedd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiynau a ofynnwyd. Y prif beth a amlygwyd yn y sylwadau a gyflwynwyd oedd yr awydd i gael cymorth penodol i sector. Amrywiai'r farn rhwng y rheini a gredai y dylid cadw'r rhyddhadau presennol a'r rhai a oedd yn dymuno caniatáu hyblygrwydd ar gyfer darparu rhyddhad wedi'i dargedu. Pwysleisiwyd hefyd y dylai unrhyw newidiadau i'r system ardrethi annomestig ystyried y goblygiadau ariannol ehangach.

## Y camau nesaf

86. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ati gyda'r gwaith o ddatblygu'r cynigion.

87. Yn fwy uniongyrchol, bydd newidiadau yn cael eu gwneud drwy reoliadau i sicrhau eglurder ynghylch cwmpas apeliadau sy'n nodi newid perthnasol mewn amgylchiadau. Bydd hyn yn cael effaith o 1 Ebrill 2023 a bydd yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â bwriad y polisi i ystyried newidiadau macro-economaidd wrth ailbrisio. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y safbwyntiau a gafodd eu cyflwyno ar y mater hwn a hoffai egluro mai bwriad y newid yw sicrhau sefydlogrwydd a thegwch o fewn y sylfaen drethu. Nodwyd y sail resymegol ar gyfer y cynigion yn yr ymgynghoriad. Pan geir ergydion sy'n effeithio ar yr economi gyfan, megis COVID-19, mae mesurau ar wahân i apeliadau arderthi annomestig yn cynnig dulliau mwy priodol o ymateb i'r effaith ar dalwyr ardrethi. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, gellir parhau i wneud apeliadau sy'n nodi newid perthnasol mewn amgylchiadau mewn ymateb i amodau sy'n benodol i ardal leol a wynebir gan dalwyr ardrethi.

88. Yn y tymor canolig, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd ar drywydd amrywiol fesurau drwy'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal ailbrisiadau bob tair blynedd a gofynion sy'n gysylltiedig â gwybodaeth ategol, ynghyd â gwelliannau i'r modd y gweinyddir rhestrau ardrethi. Bydd gwaith hefyd yn parhau i ymchwilio i ddichonoldeb cymhwyso dyddiad prisio rhagflaenol â llai o fwlch rhyngddo â'r dyddiad y cynhelir yr ailbrisiad yn y dyfodol.

89. Gofynnir hefyd am bwerau a fyddai'n galluogi is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar gyfer gweithredu newidiadau mewn perthynas â rhyddhadau, esemptiadau, amrywio'r lluosydd, a mesurau yn erbyn osgoi trethi. Byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cael barn ehangach drwy ymgynghori cyn cyflwyno unrhyw fesurau penodol sy'n defnyddio'r pwerau hyn. Byddai adolygiad o'r fframwaith presennol o ryddhadau ac esemptiadau yn llywio'r modd y byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio.

90. Yn y tymor hwy, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y safbwyntiau a gyflwynwyd mewn perthynas â diwygio ardrethi annomestig yn fwy sylweddol. Bydd y safbwyntiau hyn yn llywio'r ystyriaethau parhaus ynghylch dichonoldeb systemau treth amgen. Ni fyddai unrhyw newid o'r natur hon yn digwydd yn ystod tymor y Senedd hon a byddai'n destun cryn dipyn o ymgysylltu pellach.

## Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Daeth ymatebion i law oddi wrth y canlynol:

Accessible Retail
Ardal Gwella Busnes Abertawe
BT Group
Caerdydd AM BYTH
Consortiwm Manwerthu Cymru (WRC)
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru (CBI)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
Cymdeithas Manwerthu Elusennau (CRA)
Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain (BIRA)
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (BH&HPA)
Cymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd (ATCM)
Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS)
Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT)
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru (CLA)
Cymdeithas y Syrfewyr Siartredig (RSA)
Cyngor Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Caerdydd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC)
Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru
Dŵr Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)
Ffederasiwn Cenedlaethol Gwallt a Harddwch (NHBF)
Ffederasiwn y Manwerthwyr Annibynnol (NFRN)
Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW)
Fox Hill Farm
Gerald Eve
GL Hearn
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
Sefydliad Siartredig Trethu (CIOT)
Severn Trent Water a Hafren Dyfrdwy
Siambr Fasnach a Thwristiaeth Cas-gwent
Snowdonia Hospitality
Tourism Swansea Bay Ltd
UK Hospitality
UK Music
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Valero Energy Ltd
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV)

Derbyniwyd 7 ymateb gan aelodau unigol o'r cyhoedd.

Roedd 18 o ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw. Pan nad yw’n glir beth oedd dewis yr ymatebydd, mae’r ymateb wedi cael ei gadw yn ddienw.